# Swydd Wag

## Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Theatrig Ceardydd

**Bydd cyfweliadau yn cael eu gynnal yr wythnos yn dechrau 10 Gorffennaf 2023**

Mae WNO yn rhannu grym opera a cherddoriaeth glasurol fyw gyda chynulleidfaoedd a chymunedau ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn lle creadigol ac ysbrydoledig i weithio ynddo ac yn cydnabod bod ein cydweithwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu ein blaenoriaethau strategol i gyflawni ein huchelgeisiau.

Rydym yn chwilio am Reolwr Gyfarwyddwr ar hyn o bryd i oruchwylio Gwasanaethau Theatrig Caerdydd (CTS) a datblygu, cyflawni a rheoli nodau strategol a goruchwylio'r gweithgareddau gweithredol i ddarparu gwasanaeth masnachol hyfyw i Opera Cenedlaethol Cymru a chwsmeriaid allanol.

**Beth fydd yn ddisgwyliedig ohonoch?**

Bydd angen i'r Rheolwr Gyfarwyddwr reoli gweithgareddau gweithredol i gyflawni elw cytunedig a datblygu, mewn cydweithrediad â Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y strategaeth a'r nodau ac i chwilio a sicrhau cytundebau a chleientiaid newydd.

Bydd gennych gyfrifoldeb am holl feysydd ariannol a gweithredol CTS yn ogystal â chyfrifoldeb am ei gydweithwyr.

**Beth fydd angen i chi ei gael?**

Byddwch angen profiad o reoli busnes gweithgynhyrchu masnachol, dealltwriaeth o gynllunio golygfa, a'r gallu i weithio'n strategol a gweithredol. Bydd genych hefyd brofiad amlwg o reoli pobl a phrosiectau a phrofiad o ddatblygu timau ac unigolion sy'n perfformio'n dda.

**Beth allwn ni ei gynnig i chi?**

| | |
|---|---|
| **Cyflog Cystadleuol** | £55,000-£60,000 |
| **Gwyliau Blynyddol** | Mae gan gydweithwyr hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol (pro-rata ar gyfer oriau rhan amser) bob blwyddyn wyliau lawn sy'n rhedeg o 1 Medi i 31 Awst. Mae gwyliau banc a chyhoeddus yn ychwanegol at hyn. Ar ôl 5 mlynedd, bydd eich gwyliau yn cynyddu i 28 diwrnod. |
| **Pensiwn** | Mae'r holl weithwyr wedi'u cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Rhanddeiliaid WNO (y "Cynllun") neu unrhyw gynllun pensiwn cofrestredig arall a sefydlir gan y Cwmni fel Cynllun Pensiwn Gweithle Cymwys, tri mis ar ôl ymuno â'r Cwmni, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd penodol. |
| **Aelodaeth Campfa** | Mae'r holl weithwyr yn gymwys i gael y Cerdyn Corfforaethol Gweithredol a weithredir gan Gyngor Dinas Caerdydd sydd ar gael ar gyfradd is o 25% ac sy'n cynnwys cyfleusterau hamdden amrywiol ledled Caerdydd. |
| **Gostyngiadau** | Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cynnig gostyngiadau i breswylwyr mewn allfeydd dethol yn yr adeilad a bwytai dethol o amgylch Bae Caerdydd wrth gyflwyno cardiau adnabod. Cyfradd ostyngol gyda gwestai Future Inn yng Nghaerdydd. |
| **Gostyngiad Parcio Staff gyda Q Park** | Mae gennym gyfradd gorfforaethol gyda Q Park, Stryd Pierhead (gyferbyn â'r Ganolfan). |
| **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** | Rydym yn cynnig gwasanaeth cwnsela a chynghori am ddim a chyfrinachol sydd ar gael i'n holl weithwyr, gweithwyr llawrydd a chontractwyr. |
| **Gwersi Cymraeg** | Rydym yn cefnogi staff sydd am ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg, ac rydym yn cynnig gwersi Cymraeg sylfaenol a gwersi gwella dewisol yn rhad ac am ddim. |
| **Cynllun Arian Meddygol ac Ychwanegiadau at Fy Nghyflog** | Mae pob cydweithiwr wedi'i gofrestru'n awtomatig i gynllun arian meddygol o'r enw **BHSF** ar lefel Arian, y telir amdano gan WNO, lle gallwch hawlio arian yn ôl ar gyfer gofal iechyd arferol a brys ar ystod o ofal iechyd gan gynnwys *ffisiotherapi, deintyddiaeth, optegol, osteopathi a mwy.* Gallwch hefyd gyrchu *gwasanaeth Meddyg Teulu a Phresgripsiwn a gwasnaethau iechyd meddwl/cwnsela.*<br>Mae 'Ychwanegiadau at Fy Nghyflog' yn cynnig buddion a gostyngiadau ar wariant bob dydd, gan gynnwys, diwrnodau hamdden allan, pryniannau cartref, moduro a theithio. |

Os ydych yn chwilio am yr her nesaf, gwnewch gais heddiw.

**Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd gyda Jan Michaelis – Gyfarwyddwr Technegol, cysylltwch ag: emma.nash@wno.org.uk**